Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR GWAITH	**THE EXECUTIVE**
DYDD MAWRTH **12 RHAGFYR 2023** **10.00 o'r gloch**	**TUESDAY** **12 DECEMBER 2023** **10.00 am**
CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHWIR	**HYBRID MEETING – VIRTUAL AND IN COMMITTEE ROOM 1**

Swyddog Pwyllgor	**Ann Holmes** **01248 752518**	Committee Officer

AELODAU/MEMBERS

Plaid Cymru/The Party of Wales

Neville Evans, Carwyn E Jones, Llinos Medi, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group

Dafydd Roberts, Dafydd Rhys Thomas

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

3 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

4 RHENTI A THALIADAU GWASANAETHAU TAI 2024/25 (Tudalennau 13 - 22)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD (Tudalennau 23 - 24)

Ystyried mabwysiadau'r canlynol –

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae modd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd eithriad ohoni."

6 GOFAL YCHWANEGOL A CHARTREF PRESWYL AETHWY - ACHOSION BUSNES (Tudalennau 25 - 90)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	12 Rhagfyr 2023
Pwnc / Testun:	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Deilydd(ion) Portffolio:	Y Cynghorydd Llinos Medi
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad:	Dyfan Sion, Pennaeth Democratiaeth
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Ionawr – Awst 2024;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

1

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?
Ydy'.

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?
Amherthnasol.

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Amherthnasol.
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.	
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt.
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol.

F - Atodiadau:
Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Ionawr – Awst 2024

Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth):

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Cyfnod: Ionawr – Awst 2024

Diweddarwyd 30 Tachwedd 2023

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

* *Allwedd:*
S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol
G = Gweithredol – darparu gwasanaethau
ErG = Er gwybodaeth

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Cyfnod: Ionawr – Awst 2024

Diweddarwyd 30 Tachwedd 2023

	Y pwnc a'i *categori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
Ionawr 2024							
1	**Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)** Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Dyfan Sion Pennaeth Democratiaeth Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 23 Ionawr 2024	
2	**Rheoli Trysorlys 2023/24 – Adolygiad 6 mis**		Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams		Pwyllgor Gwaith 23 Ionawr 2024	Cyngor Llawn 7 Mawrth 2024
3	**Cyllideb Refeniw drafft 2024/25** Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori.	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Cyllid 06.12.23 a 11.01.24 Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.01.24	Pwyllgor Gwaith 23 Ionawr 2024	
4	**Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Di-breswyl yn y Gymuned – Ffioedd a Thaliadau 2024/25**		Gwasanaethau Oedolion	Arwel Owen Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Cyng Alun Roberts		Pwyllgor Gwaith 23 Ionawr 2024	

* *Allwedd:*
S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol
G = Gweithredol – darparu gwasanaethau
ErG = Er gwybodaeth

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Cyfnod: Ionawr – Awst 2024

Diweddarwyd 30 Tachwedd 2023

	Y pwnc a'i *categori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
5	**Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2024/25**		Gwasanaethau Oedolion	Arwel Owen Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Cyng Alun Roberts		Pwyllgor Gwaith 23 Ionawr 2024	
6	**Ffioedd a Thaliadau 2024/25**		Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams		Pwyllgor Gwaith 23 Ionawr 2024	
7	**Strategaeth Gyfalaf**		Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Cyllid 11.01.24	Pwyllgor Gwaith 23 Ionawr 2024 (dyddiad i'w gadarnhau)	
8	**Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dysgu (ardal Caergybi)**		Gwasanaethau Oedolion	Arwel Owen Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Cyng Alun Roberts	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 16.01.24	Pwyllgor Gwaith 23 Ionawr 2024	

* *Allwedd:*
S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol
G = Gweithredol – darparu gwasanaethau
ErG = Er gwybodaeth

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Cyfnod: Ionawr – Awst 2024

Diweddarwyd 30 Tachwedd 2023

	Y pwnc a'i *categori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
Chwefror 2024							
9	**Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)** Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Dyfan Sion Pennaeth Democratiaeth Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 20 Chwefror 2024	
10	**Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25**		Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams		Pwyllgor Gwaith 20 Chwefror 2024	Cyngor Llawn 7 Mawrth 2024
11	**Cartrefi'r Awdurdod Lleol ar gyfer Pobl Hŷn – Pennu Ffi Safonol 2024/25**		Gwasanaethau Oedolion	Arwel Owen Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Cyng Alun Roberts		Pwyllgor Gwaith 20 Chwefror 2024	
12	**Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid**		Tai	Ned Michael Pennaeth Tai Cyng Gary Pritchard	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.01.24	Pwyllgor Gwaith 20 Chwefror 2024	
13	**Strategaeth Rheoli Asedau (Gwasanaeth Tai)**		Tai	Ned Michael Pennaeth Tai Cyng Gary Pritchard	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.01.24	Pwyllgor Gwaith 20 Chwefror 2024	

* *Allwedd:*
S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol
G = Gweithredol – darparu gwasanaethau
ErG = Er gwybodaeth

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Cyfnod: Ionawr – Awst 2024

Diweddarwyd 30 Tachwedd 2023

	Y pwnc a'i *categori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
14	**Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dydd**		Gwasanaethau Oedolion	Arwel Owen Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Cyng Alun Roberts	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 06.02.2024	Pwyllgor Gwaith 20 Chwefror 2024	
15	**Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2022/23 a Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028**		Busnes y Cyngor	Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro Cyng Llinos Medi	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio I'w gadarnhau	Pwyllgor Gwaith 20 Chwefror 2024	Cyngor Llawn 7 Mawrth 2024
16	**Cynllun Bioamrywiaeth – Adroddiad Blynyddol ar Gynnydd**		Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Christian Branch Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Cyng Nicola Roberts		Pwyllgor Gwaith 20 Chwefror 2024	
Mawrth 2024 - Cyfarfod arbennig (Cyllideb) – dyddiad I'w gytuno							
17	**Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 – Ch3 (S)** Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Cyllid 15.02.24	Pwyllgor Gwaith	

* *Allwedd:*
S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol
G = Gweithredol – darparu gwasanaethau
ErG = Er gwybodaeth

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Cyfnod: Ionawr – Awst 2024

Diweddarwyd 30 Tachwedd 2023

	Y pwnc a'i *categori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
18	**Monitro Cyllideb Gyfalaf 2023/24 – Ch3 (S)** Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Cyllid 15.02.24	Pwyllgor Gwaith	
19	**Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 – Ch3 (S)** Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Cyllid 15.02.24	Pwyllgor Gwaith	
20	**Cyllideb Refeniw 2024/25 (S)** Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell i'r Cyngor Sir.	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Cyllid 15.02.24 Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – 27.02.24	Pwyllgor Gwaith	Cyngor Llawn 7 Mawrth 2024
21	**Cyllideb Gyfalaf 2024/25** Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell i'r Cyngor Sir.	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Cyllid 15.02.24 Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 27.02.24	Pwyllgor Gwaith	Cyngor Llawn 7 Mawrth 2024

* *Allwedd:*
S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol
G = Gweithredol – darparu gwasanaethau
ErG = Er gwybodaeth

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Cyfnod: Ionawr – Awst 2024

Diweddarwyd 30 Tachwedd 2023

	Y pwnc a'i *categori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
Mawrth 2024 – cyfarfod arferol							
22	**Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)** Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Dyfan Sion Pennaeth Democratiaeth Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 19 Mawrth 2024	
23	**Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2023/24 (S)** Adroddiad monitro perfformiad chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor.	Trawsnewid Corfforaethol	Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid Cyng Carwyn Jones	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 12.03.24	Pwyllgor Gwaith 19 Mawrth 2024	
24	**Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2024 – 2054**		Tai	Ned Michael Pennaeth Tai Cyng Gary Pritchard	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 12.03.24	Pwyllgor Gwaith 19 Mawrth 2024	
Ebrill 2024							
25	**Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)** Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Dyfan Sion Pennaeth Democratiaeth Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 23 Ebrill 2024	
26	**Asesiad y Farchnad Dai Leol**		Tai	Ned Michael Pennaeth Tai Cyng Gary Pritchard	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Gwaith 23 Ebrill 2024	

* *Allwedd:*
S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol
G = Gweithredol – darparu gwasanaethau
ErG = Er gwybodaeth

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Cyfnod: Ionawr – Awst 2024

Diweddarwyd 30 Tachwedd 2023

	Y pwnc a'i *categori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
Mai 2024							
27	**Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)** Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Dyfan Sion Pennaeth Democratiaeth Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith Mai 2024	
Mehefin 2024							
28	**Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023/24** Cymeradwyo'r adroddiad.	Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith.	Busnes y Cyngor	Dylan Williams Prif Weithredwr Cyng Dafydd Roberts	I'w gadarnhau	Penderfyniad dirpwyiedig Mehefin 2024	
29	**Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)** Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Dyfan Sion Pennaeth Democratiaeth Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith Mehefin 2024	
30	**Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2023/24 (S)** Adroddiad monitro perfformiad chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor.	Trawsnewid Corfforaethol	Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid Cyng Carwyn Jones	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Gwaith Mehefin 2024	

* *Allwedd:*
S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol
G = Gweithredol – darparu gwasanaethau
ErG = Er gwybodaeth

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Cyfnod: Ionawr – Awst 2024

Diweddarwyd 30 Tachwedd 2023

	Y pwnc a'i *categori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
31	**Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 – Ch2 (S)** Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Cyllid	Pwyllgor Gwaith Mehefin 2024	
32	**Monitro Cyllideb Gyfalaf 2023/24 – Ch4 (S)** Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Cyllid	Pwyllgor Gwaith Mehefin 2024	
33	**Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 – Ch4 (S)** Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Cyllid	Pwyllgor Gwaith Mehefin 2024	
Gorffennaf 2024							
34	**Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)** Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Dyfan Sion Pennaeth Democratiaeth Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith Gorffennaf 2024	

* *Allwedd:*
S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol
G = Gweithredol – darparu gwasanaethau
ErG = Er gwybodaeth

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	**Y Pwyllgor Gwaith**
Dyddiad:	**12 Rhagfyr 2023**
Pwnc / Testun:	**Rhenti a Thaliadau Gwasanaethau Tai 2024/25**
Deilydd(ion) Portffolio:	**Y Cynghorydd Gary Pritchard**
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	**Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai**
Awdur yr Adroddiad: Tel: E-bost:	**Darren Gerrard, Rheolwr Busnes Adran Tai** **01248 752265** **dkghp@ynysmon.llyw.cymru**
Aelodau Lleol:	

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am gynnydd o hyd at 6.7% mewn lefelau rhent cymdeithasol gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynnydd rhent a thaliadau gwasanaeth ar gyfer 2024/25 fel y nodir isod :-

A1 i gymeradwyo cynydd o 6.7% ar draws yr holl undau rhent cyffredinol sy'n unol â pholisi rhent Llywodraeth Cymru wrth gasglu dros 52 wythnos.

A2 i gymeradwyo cynnydd o 63c yr wythnos ar gyfer rhenti pob garej.

A3 i gymeradwyo'r taliadau gwasanaeth fel y nodwyd yn adran 6.3 o'r adroddiad i'w codi ar bob tenant sy'n derbyn y gwasanaethau perthnasol.

A4 i gymeradwyo gweinyddu'r 'Cynllun Cymorth Rhent', cynllun lleol i gefnogi tenantiaid sydd yn hunan dalu eu rhent.

1.0 Cefndir

1.1 Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 mae'n rhaid i'r Cyngor gadw Cyfrif Refeniw Tai (CRT), sydd wedi'i glustnodi'n unig ar gyfer trafodion sy'n ymwneud yn benodol â Thai Awdurdod Lleol.

1.2 Gan fod y MPD ar gyfer Medi 2023 yn 6.7% sy'n disgyn y tu allan i'r trothwy o 0% i 3% ac felly'n golygu nad yw'r codiad rhent blynyddol cyfredol o MPD + 1% yn gymwys, bydd y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros Newid Hinsawdd yn pennu'r newid priodol ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol ar gyfer 2024/25.

1.3 Mae'r Gweinidog wedi pennu'r codiad rhent blynyddol uchaf ar draws y holl stoc rhent cyffredinol fydd **hyd at** 6.7%, h.y lefel chwyddiant fel nodwyd ar gyfer mis Medi 2023.

1.4 Er mai 6.7% fydd y cynnydd mwyaf a ganiateir, disgwylir bod rhaid i benderfyniad yr Awdurdod ar y cynnydd rhent ystyried anghenion landlordiaid a fforddiadwyedd rhenti i denantiaid yn gyfartal.

1.5 Uchelgais Llywodraethau Cymru yw bod pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n cynnwys yr 11 awdurdod lleol sydd wedi cadw eu stoc tai yn ymrwymo i gyrraedd safonau SATC2 a cafodd i lansio yn ddiweddar erbyn 2033. Bydd angen buddsoddiad sylweddol gan yr CRT i gyllido dros y 8 mlynedd nesaf i wireddu'r disgwyliadau hyn, byddwn yn parhau i dderbyn y Lwfans Atgyweirio Sylweddol o oddeutu £2.7m gan Lywodraeth Cymru ond bydd rhaid uchafu ein incwm rhent os am wireddu'r disgwyliad hyn.

1.6 Mae'n ddisgwyliedig hefyd gan Lywodraeth Cymru bod holl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru barhau i gynyddu'r nifer o dai cymdeithasol fforddiadwy newydd sy'n cael eu datblygu er mwyn gwireddu eu uchelgais o 20,000 o gartrefi newydd. Dros y 3 blynedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Tai wedi cwblhau'r gwaith o ddatblygu 90 o gartrefi newydd ac wedi prynu 41 gyn dai Cyngor yn ol. Yn ychwanegol i hyn mae gennym raglen ddatblygu o 39 o gartrefi newydd ar y safle ac rydym yn y broses o gynllunio datblygiad Cynllun Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthaethwy.

1.7 Hyderwn bod yr uchod yn cyfiawnhau'r achos modd i fod yn uchafu ein incwm rhent er mwyn cwrdd â dyheadau Llywodraethau Cymru sydd yn cynnwys yr angen i sicrhau gorffeniad lloriau addas yn ein cartrefi sydd am fod yn cynyddu ein costau wrth ail osod cartrefi.

1.8 Fel rhan o safon rhent Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i bob Landlord Cymdeithasol wneud asesiad blynyddol o fforddiadwyedd i denantiaid,

effeithlonrwydd costau a dangos bod eu cartrefi a'u gwasanaethau yn cynrychioli gwerth am arian.

1.9 Fel rhan o'r broses ystyried ar gyfer y setliad hwn, mae nifer o ymrwymiadau a mentrau newydd wedi eu pennu gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys :-

•Dim troi allan (efictio) oherwydd caledi ari annol am dymor y setliadcyn belled â bod tenantiaid yn cysylltu a chydweithio â'u landlordiaid.
• Darparu help wedi'i dargedu i'r rhai sy'n profi caledi ariannol i gael cymorth.
• Gwneud y defnydd gorau o'r holl stoc tai cymdeithasol addas, gan ganolbwyntio ar helpu'r rhai sydd yn y llety dros dro o'r ansawdd isaf i symud i gartrefi mwy hirdymor.
• Parhau â'r ymrwymiad i fuddsoddi mewn cartrefi presennol i'w cadw'n ddiogel, yn gynnes ac yn fforddiadwy.
• Cynnal arolwg o fodlonrwydd tenantiaid safonol a chyhoeddi'r data ar wefan ganolog er mwyn i denantiaid gael gweld a chymharu perfformiad landlordiaid. Dyddiad yr arolwg nesaf, ar sail cwestiynau craidd newydd, yw 28 Chwefror 2024 i'w gyhoeddi ym mis Ebrill.

1.10 Rhent Canolraddol - mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi cytuno ar sefyllfa dros dro sef y caiff landlordiaid gynnig tenantiaethau Rhent Canolradd ar 80% o werth y farchnad cyn belled eu bod yn parhau i ystyried a thalu sylw dyledus i gyfraddau'r Lwfans Tai Lleol. Ym mhob achos, rhaid i landlordiaid fod yn fodlon bod y tenantiaethau hyn yn dal i fod yn fforddiadwy i denantiaid.

2.0 Fforddiadwyedd

2.1 Er mwyn asesu'r fforddiadwyedd rhent cyfartalog presennol ar gyfer tenantiaid Cyngor Sir Ynys Môn, defnyddiwyd methodoleg Rhentu Byw Sefydliad Joseph Rowntree (JRF). Mae'r canlyniadau'n am 2023/24 yn seiliedig ar fathau o eiddo ac ystafell wely fel a ganlyn :-

Math o eiddo	Nifer o stafelloedd	Ffactor cychwyn	Ffactor Addasu	Rhent Byw JRF	Rhent wythnosol cyfartalog CSYM
Bedsit	Bedsit	1.00	0.9	£78.41	£76.48
Fflat	1 gwely	1.00	1	£87.12	£86.07
Fflat	2 gwely	1.00	1.2	£104.54	£95.29
Fflat	3 gwely	1.00	1.3	£113.26	£104.97
Fflat	4 gwely	1.00	1.4	£121.97	£114.71
Bungalo	1 gwely	1.00	1.1	£95.83	£95.06
Bungalo	2 gwely	1.00	1.3	£113.26	£103.98
Bungalo	3 gwely	1.00	1.4	£121.97	£113.20
Bungalo	4 gwely	1.00	1.5	£130.68	£126.79
Tŷ	1 gwely	1.00	1.1	£95.83	£95.19

	Tŷ	2 gwely	1.00	1.3	£113.26	£105.22
	Tŷ	3 gwely	1.00	1.4	£121.97	£112.37
	Tŷ	4 gwely	1.00	1.5	£130.68	£119.92
	Tŷ	5+ gwely	1.00	1.6	£139.39	£128.64

2.2 Mae'r model Rhent Byw JRF yn sefydlu cysylltiad rhwng rhenti a gallu pobl ar incwm isel i'w fforddio, gan ddefnyddio'r data enillion lleol cwarter is o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion.

2.3 Mae'r model yn nodi y dylai Rhent Byw fod yn fforddiadwy i aelwyd gyda rhywun mewn cyflogaeth llawn amser, gan weithio nifer yr oriau a weithiwyd bob wythnos ar gyfartaledd ac enillion o gwmpas yr isafswm cyflog. Mae'r model felly'n defnyddio'r ffigurau enillion cenedlaethol chwarter isaf.

2.4 Yr enillion pedwarplyg isaf ar gyfer Ynys Môn yw £343.79 gros yr wythnos (2022 ffigurau ASHE 25ain enillion canradd) neu £17,877 y flwyddyn.

2.5 Mae cyfrifiannell cyflog yn trosi hyn i enillion blynyddol net o £16,178 drwy gyfrifo treth a didyniad YG gan ddefnyddio cyfraddau treth 2023. Mae hyn yn cyfateb i £311.13 yr wythnos (net).

2.6 Mae egwyddor model JRF yn nodi bod 28% o'r enillion wythnosol net hyn (y pedwarawd isaf) felly'n £87.12 yr wythnos, sy'n golygu na ddylai person ar rent cymdeithasol fod yn talu mwy na £87.12 yr wythnos ar rent i berson sengl mewn fflat un ystafell wely.

2.7 Mae angen pwysau i adlewyrchu cyfansoddiad gwahanol ein mathau o eiddo a'n meintiau :-

Math o eiddo	Ffactor	Nifer o stafelloedd gwely	Ffactor
Bedsit	-0.10	Bedsit	0.00
Fflat	0.00	1 gwely	0.00
Bungalo	0.10	2 gwely	0.20
Tŷ	0.10	3 gwely	0.30
		4 gwely	0.40
		5+ gwely	0.50

2.8 Mae defnyddio methodoleg JRF yn dangos bod y rhent cyfartalog ar gyfer pob math o eiddo a maint yn cael ei ystyried yn fforddiadwy ar hyn o bryd i denantiaid Môn ac felly mae'n cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru.

2.9 Pe byddem yn cyfrifo y fforddiadwyedd yn seiliedig ar gyfradd chwyddiant o 6.7% mae tri chategori a fyddai'n cael eu hystyried ychydig yn anfforddiadwy. Byddai'r rhain yn fflat un ystafell wely, byngalo un ystafell wely a thŷ un ystafell wely :-

Math o eiddo	Nifer o stafelloedd gwely	Ffactor cychwyn	Ffactor addasu	Rhent byw JRF	Rhent wythnosol cyfartalog CSYM	Rhent + 6.7%
Bedsit	Bedsit	1.00	0.9	£82.35	£76.48	£81.60
Fflat	1 gwely	1.00	1	£91.50	£86.07	£91.84
Fflat	2 gwely	1.00	1.2	£109.80	£95.29	£101.67
Fflat	3 gwely	1.00	1.3	£118.95	£104.97	£112.00
Fflat	4 gwely	1.00	1.4	£128.10	£114.71	£122.40
Bungalo	1 gwely	1.00	1.1	£100.65	£95.06	£101.43
Bungalo	2 gwely	1.00	1.3	£118.95	£103.98	£110.95
Bungalo	3 gwely	1.00	1.4	£128.10	£113.20	£120.78
Bungalo	4 gwely	1.00	1.5	£137.25	£126.79	£135.28
Ty	1 gwely	1.00	1.1	£100.65	£95.19	£101.57
Ty	2 gwely	1.00	1.3	£118.95	£105.22	£112.27
Ty	3 gwely	1.00	1.4	£128.10	£112.37	£119.90
Ty	4 gwely	1.00	1.5	£137.25	£119.92	£127.95
Ty	5+ gwely	1.00	1.6	£146.40	£128.64	£137.26

2.10 Yn ogystal â'r asesiad fforddiadwyedd a gynhaliwyd, cynhaliwyd arolwg ar-lein hefyd rhwng 8 Tachwedd 2023 a 20 Tachwedd 2023. Canlyniad arfaethedig yr arolwg hwn oedd dweud wrthym a oedd ein tenantiaid yn credu bod eu rhent yn deg, fforddiadwy ac os yw'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn yn werth am arian. Rydym am sicrhau bod ein rhenti yn deg ac yn fforddiadwy i denantiaid presennol ac yn y dyfodol.

2.11 Dychwelwyd cyfanswm o 779 (19%) o arolygon a'n cynulleidfa darged oedd cyrraedd cymaint o denantiaid nad oeddent yn derbyn unrhyw fudd-daliadau a gyfrannodd tuag at dalu am eu rhent gan y byddai unrhyw newidiadau posibl a wnaed i gynnydd mewn rhent yn effeithio gan amlaf ar y dosbarth gweithiol nad oes ganddynt hawl i fudd-daliadau.

2.12 Un o'r cwestiynau allweddol o fewn yr arolwg oedd "Rydym am sicrhau bod ein rhenti yn deg ac yn fforddiadwy i denantiaid presennol a rhai'r dyfodol. Ydych chi'n meddwl bod eich rhent yn fforddiadwy ?". Roedd dros 82% o denantiaid yn cytuno bod ein rhenti yn fforddiadwy a 18% yn anghytuno.

2.13 Yn ychwanegol i'r uchod, roedd dros 61% o'r arolygon wedi eu cwblhau gan denantiaid a oedd yn gweithio'n llawn amser sydd yn dangos fod yr arolwg wedi targedu'r tenantiaid a oedd posib ddim yn deilwng o gael cymorth budd-dall neu credyd cynhwysol.

3.0 Effaith Cynnydd Rhent ar ein Tenantiaid

3.1 Bydd y cynnydd mewn rhent blynyddol yn cael ei gyfrifo gan 'Rent Cyfredol + 6.7%' ar gyfer pob tenant.

3.2 Ar hyn o bryd mae 2881 o denantiaid y Cyngor (73%) yn derbyn budd-dal tai llawn (neu Credyd Cynhwysol) a ni byddent yn wynebu unrhyw galedi ychwanegol o ganlyniad i'r cynnydd arfaethedig mewn rhent a thaliadau gwasanaeth,

3.3 Bydd Gweithredu'r cynnydd o 6.7% yn rhoi cynnydd rhwng £5.12 yr wythnos a £9.26 yr wythnos i bob tenant.

1609 codi rhwng £5.12 - £6.99
2336 codi rhwng £7.00 - £8.99
10 codi rhwng £9.00 - £9.26

3.4 Mae tua 1092 o denantiaid ddim yn derbyn unrhyw gymorth tuag at eu rhent ac felly, yn talu'r rhent yn llawn. Bydd gweithredu'r cynnydd hyn yn golygu :-

378 yn codi rhwng £5.12 - £6.99
712 codi rhwng £7.00 - £8.99
2 codi rhwng £9.00 - £9.26

3.5 Pe byddem yn gweithredu cynnydd rhent o 6.7% ac yn casglu dros 52 wythnos i ystyried yr wythnos ddi-rent dros gyfnod y Nadolig, byddwn yn cynhyrchu incwm rhent blynyddol o oddeut £22.9m sydd oddeutu £1.85m o incwm rhent blynyddol ychwanegol.

3.6 Oherwydd effaith Diwygio Budd-dal Lles y Llywodraeth ac effaith yr argyfwng Costau Byw mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg wedi ei chynyddu i £344,492 (1.5%) ar gyfer 2024/25 wrth i ni ddisgwyl y bydd ôl-ddyledion yn cynyddu pan fydd yn rhaid i denantiaid fodloni cyfran uwch o rent eu hunain.

4.0 Cynllun Busnes CRT 30 mlynedd

4.1 Yn y cynllun 30 mlynedd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023, dangosodd y Cyngor ein bod yn uchelgeisiol drwy ddarparu mwy o dai fforddiadwy ynghyd â thai gofal ychwanegol. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud y mwyaf o'r incwm rhent er mwyn gallu datblygu a chynyddu'r stoc.

5.0 Cymorth Ariannol i Denantiaid

5.1 Mae gan y Gwasanaethau Tai Dim Cynhwysiant Ariannol sydd yn cynnwys tri Swyddog Cynhwysiant Ariannol sydd ar gael i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i denantiaid sydd yn hunan dalu a fyddai'n wynebu unrhyw galedi ariannol o ganlyniad i weithredu'r cynnydd.

5.2 Bydd y Cyngor hefyd yn neilltuo cronfa 'Cynllun Cymorth Rhent' sydd yn gynllun lleol ar gyfer tenantiaid sy'n hunan dalu rhent yn llawn ac a allai fod mewn trafferthion ariannol o ganlyniad i'r cynnydd.

5.3 Bydd cartrefi sy'n cael eu hystyried i fod angen cymorth gyda'u rhent yn gallu gwneud cais i'r Cynllun Cymorth Rhent neu'n cael eu cyfeirio at y cynllun.

6.0 Taliadau Gwasanaeth

6.1 Mae'r taliadau am wasanaethau y mae'r Awdurdod yn eu darparu yn ystod 2024/25 yn seiliedig ar gostau gwirioneddol a gafwyd yn ystod 2022/23 ac fe'u rhennir yn gyfartal ymhlith tenantiaid a lesddeiliaid. Dylid nodi bod mwyafrif y costau hyn yn gymwys am fudd-dal tai neu Gredyd Cynhwysol.

6.2 Mae rhan fwyaf o'r costau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn wedi lleihau o gymharu â ffigyrau'r llynedd. Bydd oddeutu £180k o incwm yn cael ei gynhyrchu ganddynt.

6.3 Y taliadau wythnosol arfaethedig ar gyfer 2024/2025, yn seiliedig ar 52 wythnos, yw:

Cynnal lifftiau - £0.12 - £0.73
Glanhau ardaloedd cymunedol - £3.52 – £5.99
Larymau Tân ac Offer Tân - £0.81
Systemau Mynediad - £0.31
Taliadau Carthffosiaeth - £4.11
Gwresogi a Goleuo ardaloedd cymunedol - £1.27
Erialau Teledu mewn ardaloedd cymunedol - £0.21
Cynnal a Chadw Tir (Eiddo Domestig) - £5.75 (tâl 6 mis)
Cynnal a Chadw Tir (Tai Gwarchod) - £0.15 - £3.23)
Costau rheoli ar 15% o bob tâl gwasanaeth.

6.4 Ar hyn o bryd mae 41 o lesddeiliaid y codir arnynt am wasanaethau y maent yn eu derbyn gan yr Awdurdod. Bydd hyn yn cynhyrchu incwm blynyddol ychwanegol o oddeutu £4k**.**

7.0 Garejis

7.1 Nid yw Polisi Rhent Llywodraeth Cymru yn rhoi unrhyw arweiniad ar sut i gynyddu rhent garej. Mae'r Cyngor felly yn cynnig gynyddu rhent y garej o 6.7% a fydd yn cynyddu'r rhent o 0.63c. Bydd hyn yn cynyddu'r rhent o £9.39 yr wythnos i £10.02 a bydd yn cynhyrchu incwm o £268 mil ar ôl tynnu garejis gwag. Ar 10 Tachwedd 2023 mae 154 o garejis gwag.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?
Mae gan Bolisi Rhent newydd Llywodraeth Cymru oblygiadau ar gyfer Cynllun Busnes y CRT.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?
1) Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol, yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, roi'r Polisi Rhent ar waith. Byddai gwrthod y polisi hwn yn y pen draw yn golygu colli incwm i'r Awdurdod ac yn anochel yn effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir. Byddai hyn hefyd yn tanseilio Cynllun Busnes y CRT ac o bosib yn ein hagor i ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru pe na bai'r polisi'n cael ei fabwysiadu.

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?
Ydi

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Trwy fuddsoddiad parhaus yn ein stoc sy'n golygu bod cartrefi'n cyrraedd safonau SATC yn barhaus.
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	Ddim yn berthnasol
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.	
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Cynhaliwyd arolwg ar-lein i ymgysylltu â thenantiaid a derbyn eu barn ar fforddiadwyedd rhent a gosod rhent. Mae tenantiaid yn cael gwybod yn flynyddol am daliadau rhent a gwasanaeth yn cynyddu

		cymeradwyaeth ôl-ddemocrataidd ym mis Rhagfyr. Rhoddir 2 fis o rybudd i denantiaid am y cynnydd hwn trwy lythyrau.
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) wedi'i greu a'i ddiweddaru. Mae cymhwyso'r cynnydd mewn rhent i'r holl denantiaid yn golygu y byddwn yn dosrannu'r cynnydd yn deg ac yn cyfyngu ar y cynnydd unigol fesul tenant.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gynghorau godi rhenti yn flynyddol ac mae'n darparu fformiwla briodol at y pwrpas hyn. Mae rhwymedigaeth ar gynghorau i gynnal safon uchel o lety ar gyfer eu tenantiaid, ac felly maent yn dibynnu ar y refeniw ychwanegol hwn i wrthsefyll effeithiau chwyddiant. Ni fydd y cynnydd yn effeithio ar y rhan fwyaf o denantiaid oherwydd eu bod yn gymwys i gael Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol.
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Dim – nid yw'r codiad rhent yn uniongyrchol gysylltiedig â'r laith Gymraeg o ystyried y bydd y cynnydd yn y rhent a'r taliadau gwasanaeth yn effeithio ar bob tenant.

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?		
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	

F - Atodiadau:

Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):
Llythyr Hysbysu Llywodraeth Cymru 2024/2025 Polisi CynllunCymorth Rhent

DDIM I'W GYHOEDDI
NOT FOR PUBLICATION

Tai Gofal Ychwanegol / Cartref Gofal Preswyl i wasanaethu De'r ynys

Extra Care Homes / Residential Care Home to serve the South of the island.

PRAWF BUDD Y CYHOEDD
PUBLIC INTEREST TEST

Paragraff 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 **Paragraph 14 Schedule 12A Local Government Act 1972**	
Y PRAWF – THE TEST	
Mae yna fudd i'r cyhoedd **wrth ddatgan** oherwydd: Mae adeiladu cynllun Tai Gofal Ychwanegol / Cartref Gofal Preswyl yn Tyddyn Mostyn, Porthaethwy yn bwysig i rhanddeiliaid Ynys Môn er mwyn creu mwy o gapasiti i gwrdd a'r cynnydd mewn galw sydd yn cael ei ragweld i'r dyfodol. *There is a public interest **in disclosure** as:* *Building a new Extra Care / Residential Care Home at Tyddyn Mostyn, Menai Bridge is important to Anglesey stakeholders in order to create more capacity to meet the predicted increase in future demand.*	Y budd i'r cyhoedd **wrth beidio** datgelu yw: Mae'r Achosion Busnes sy'n atodol yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif am y prosiect h.y. gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol a thendro a all roi'r Cyngor dan anfantais pan mae'n dod i osod contractau ac ati ar gyfer gwaith i'r dyfodol. *The public interest **in not disclosing** is:* *The accompanying Business Cases contains commercially sensitive information about the project i.e. Information relating to financial and tendering issues which could disadvantage the Council when it comes to awarding contracts etc. for future work.*
Argymhelliad -Yn rhinwedd Paragraff 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 -Gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu fasnachol unigolyn penodol. (Gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno). **Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.** ***Recommendation** - By Virtue of Paragraph 14 Schedule 12A Local Government Act 1972* *-Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information).* ***The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.***	

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank